Dyfodol Ynni Niwclear

dti

RÔL YNNI NIWCLEAR MEWN ECONOMI CARBON ISEL YN Y DU

Ymgynghoriadau ar y prosesau arfaethedig ar gyfer Asesu Cyfiawnhad a Safleoedd Strategol

MAI 2007

Daw'r ymgynghoriad hwn yn sgîl cyhoeddi'r Papur Gwyn ar Ynni. Mae'r ystod eang o fesurau a nodwyd yn y Papur Gwyn yn datblygu ein hymrwymiad i ateb y ddwy her ynni hirdymor, sef:

- mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy leihau gollyngiadau carbon deuocsid yn y DU a thramor; a
- sicrhau ynni diogel, glân a fforddiadwy wrth i ni ddibynnu fwyfwy ar danwydd wedi'i fewnforio.

Bydd y dadleuon a'r dystiolaeth – yn arbennig unrhyw ddadleuon, gwybodaeth neu dystiolaeth newydd – yn bwysicach na chefnogaeth neu wrthwynebiad syml i orsafoedd ynni niwclear newydd wrth i'r Llywodraeth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

Cynnwys

Pennod 1 2
- Cyflwyniad 2
- Mynd ati i gymryd camau hwyluso wrth gefn 2
- Sut i ymateb 3
- Cyfrinachedd a diogelu data 3
- Copïau ychwanegol 4
- Help gydag ymholiadau 4

Pennod 2: Ymgynghoriad ar y broses Gyfiawnhau arfaethedig ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd 5
- Adran 1: Cyflwyniad 5
- Adran 2: Y broses Gyfiawnhau 8
- Adran 3: Y broses ar gyfer gwneud ac ystyried ceisiadau 9
- Atodiad A: Cynnwys dangosol cais am Gyfiawnhad 13

Pennod 3: Ymgynghoriad ar y broses arfaethedig o gyfuno Asesiad o Safleoedd Strategol ac Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd 16
- Adran 1: Cyflwyniad a chwestiynau'r ymgynghoriad 16
- Adran 2: Effaith a chwmpas yr Asesiad o Safleoedd Strategol 20
- Adran 3: Y broses arfaethedig i'w dilyn ar gyfer yr Asesiad o Safleoedd Strategol 24
- Atodiad B: Meini prawf cyffredinol dangosol ar gyfer asesu pa mor addas yw safleoedd ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd 28

PENNOD 1

Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys dau ymgynghoriad ar wahân, y naill yn ymdrin â phroses Gyfiawnhau arfaethedig (pennod dau), a'r llall ar broses arfaethedig ar gyfer cyfuno Asesiad o Safleoedd Strategol ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (pennod tri). Caiff y ddogfen hon ei chyhoeddi gyda phrif ymgynghoriad niwclear y Llywodraeth (Rôl Ynni Niwclear mewn Economi Carbon Isel yn y DU[1], Dogfen Ymgynghori) lle rydym wedi ystyried ac wedi nodi'r farn ragarweiniol bod gan y broses o gynhyrchu ynni niwclear ran i'w chwarae yng nghymysgedd cynhyrchu ynni'r DU yn y dyfodol.

2. Diben prif ymgynghoriad y Llywodraeth yw rhoi gwybodaeth i bartïon â diddordeb am ynni niwclear, a'u cynorthwyo i lunio barn hyddysg ar ddyfodol ynni niwclear sifil yn y DU. Ar sail yr ymatebion a'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried a yw'n briodol cadarnhau ein barn ragarweiniol ar ffurf polisi'r Llywodraeth, a galluogi'r sector preifat i fuddsoddi mewn gorsafoedd ynni niwclear newydd.

Mynd ati i gymryd camau hwyluso wrth gefn

3. Gwyddom fod angen mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a sicrhau cyflenwadau diogel o ynni cynaliadwy dros y tymor canolig i'r hirdymor yn ddybryd. Gwyddom hefyd fod amseroedd dirwyn hir ar gyfer ynni niwclear ac ar gyfer y prosesau sydd angen cael eu rhoi ar waith i hwyluso'r broses o gyflwyno gorsafoedd ynni niwclear newydd yn y DU. Felly, mae'r posibilrwydd o ddisodli cryn swm o'n capasiti niwclear presennol yn gyfyngedig.

4. Credwn ei bod yn ddoeth dechrau gweithio ar y cam hwyluso hwn nawr, fel na chaiff unrhyw amser ei wastraffu os down i'r casgliad bod gan ynni niwclear ran i'w chwarae. Dyna pam ein bod yn ymgynghori nawr ar y broses Gyfiawnhau a'r Asesiad o Safleoedd Strategol arfaethedig. Byddwn yn adolygu p'un a ddylai'r gwaith hwn fynd rhagddo yn sgîl yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

5. Mae'r broses Gyfiawnhau a'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn rhan o'r fframwaith rheoliadol a fyddai'n gymwys i ynni niwclear newydd, pe byddai'r Llywodraeth yn cadarnhau ei barn ragarweiniol. Am y rheswm hwn, rydym wedi datblygu prosesau arfaethedig fel y gall y rhai sy'n ymateb i brif ymgynghoriad niwclear y Llywodraeth lunio barn ehangach hefyd o'r modd y gellid cymhwyso'r camau hyn. Felly, byddem yn croesawu eich barn ar y cynigion a nodir yn y ddogfen hon.

1 http://www.dti.gov.uk/energy/whitepaper/consultations/nuclearpower2007

Sut i ymateb

6. Pan fyddwch yn ymateb nodwch p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle y bo'n gymwys, sut y gwnaethoch gasglu barn aelodau.

7. Mae fersiwn electronig o'r ddogfen ymgynghori hefyd ar gael yn http://www.direct.gov.uk/nuclearpower2007, a gall y sawl sy'n ymateb gyflwyno eu hymatebion drwy'r wefan hon.

8. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 10 Hydref 2007:

9. Gellir cyflwyno ymateb drwy anfon llythyr, ffacs neu e-bost i

Response – Nuclear Technical Consultation 2007
FREEPOST SEA 12430
Thornton Heath
CR7 7XT
Ffôn: 020 7215 3331
Ffacs: 020 8683 6601
E-bost: response@nuclearpower2007.org.uk

Os ydych yn ymateb ar bapur gallwch ddefnyddio'r ffurflen ymateb sydd ar gael ar gais drwy gysylltu â llinell archebu Cyhoeddiadau'r Adran Masnach a Diwydiant (mae'r cyfeiriad isod). Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, caiff pob ymateb (gan gynnwys enwau'r ymatebwyr) ei gyhoeddi oni bai fod ymatebwyr yn gwneud cais penodol i gadw eu hymatebion yn gyfrinachol. Bydd hyn yn wir am bob ymateb p'un a gaiff ei gyflwyno ar-lein, drwy'r post, dros y ffacs neu dros yr e-bost. Os hoffech i ni drin eich ymateb yn gyfrinachol nodwch hynny ar eich ffurflen ymateb. Dylech hefyd ddarllen yr adran ar gyfrinachedd a diogelu data.

Cyfrinachedd a diogelu data

10. Gall y wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau hawl i weld gwybodaeth (y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf). Rhagdybir y caiff pob ymateb i'r ymgynghoriad ei gyhoeddi.

11. Os hoffech i ni drin gwybodaeth arall a roddir gennych yn gyfrinachol, dylech nodi, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod yna God Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sydd, ymhlith pethau eraill, yn ymdrin â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

12. O ganlyniad i hyn byddai'n ddefnyddiol petaech yn gallu nodi pam mae'r wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau cyfrinachedd ymhob achos. Ni fydd datganiad cyfrinachedd awtomatig a grëir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n rhwymo'r Adran.

13. Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau golyga hyn na chaiff eich data personol ei ddatgelu i drydydd partïon.

Copïau ychwanegol

14. Cewch wneud copïau o'r ddogfen hon heb ofyn am ganiatâd. Gellir cael rhagor o gopïau argraffedig o'r ddogfen ymgynghori a chopïau o'r holiadur gan:

DTI Publications Orderline
ADMAIL 528
London SW1W 8YT
Ffôn: 0845 015 0010
Ffacs: 0845 015 0020
Minicom: 0845 015 0030
http://www.dti.gov.uk/publications

15. Mae fersiwn electronig ar gael yn http://www.direct.gov.uk/nuclearpower2007.

Help gydag ymholiadau

16. Gellir anfon cwestiynau am y materion a godir yn y ddogfen hon i:

Query – Nuclear Technical Consultation 2007
FREEPOST SEA 12430
Thornton Heath
CR7 7XT
Ffôn: 020 7215 3331
Ffacs: 020 8683 6601
E-bost: query@nuclearpower2007.org.uk

PENNOD 2

Ymgynghoriad ar y broses Gyfiawnhau arfaethedig ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd

Adran 1: Cyflwyniad

1. Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar y broses Gyfiawnhau arfaethedig ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd os bydd y Llywodraeth yn digwydd cadarnhau ei barn ragarweiniol bod gan y broses o gynhyrchu ynni niwclear ran i'w chwarae yng nghymysgedd cynhyrchu ynni'r DU yn y dyfodol.

2. Ar ddiwedd yr ymgynghoriad hwn, yn dibynnu ar y sylwadau a gawn, a chanlyniad y prif ymgynghoriad niwclear, byddwn yn paratoi canllawiau i ymgeiswyr ar sut y byddai'r broses gyfiawnhau yn gweithredu ac yn gofyn am geisiadau. Ceir rhestr o'r cwestiynau ar y broses arfaethedig yn Adran tri o'r ddogfen hon.

3. Mae gorsafoedd ynni niwclear yn cynnwys defnyddio deunyddiau sy'n cynhyrchu ymbelydredd ïoneiddio ac sydd felly yn ddarostyngedig i ofynion rheoleiddio llym o ran eu cynllun a'u gweithrediad. Mae'r broses Gyfiawnhau yn un o nifer o brosesau rheoleiddio statudol neu glirio trwyddedau. Nid yw, ar ei phen ei hun, yn awdurdodi'r gwaith o adeiladu neu weithredu unrhyw safle neu weithgarwch penodol, ac nid yw ychwaith yn disodli'r asesiadau o ddiogelwch ac asesiadau amgylcheddol a gynhelir gan y rheoleiddwyr niwclear.

4. Yn hytrach, mae cyfiawnhad yn asesiad lefel uchel i bennu'r manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â dosbarth neu fath arbennig o arfer niwclear. Cyn y gellir cyflwyno dosbarth neu fath newydd o arfer i'r DU, rhaid iddo gael ei gyfiawnhau, h.y. byddai angen i'r manteision sy'n gysylltiedig â'i gyflwyno fod yn bwysicach na'r niwed a berir i iechyd. Nid oes angen dangos mai'r dosbarth neu'r math o arfer yw'r opsiwn gorau sydd ar gael, ond yn hytrach bod mantais net.

5. Mae'r broses asesu Cyfiawnhad yn gyffredinol yn hytrach nag yn ymwneud â safleoedd penodol.

6. Yn ogystal â'r gweithdrefnau rheoleiddio domestig, mae'n ofynnol i'r DU o dan erthygl 37 o Gytuniad Euratom roi gwybodaeth i'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n ymwneud ag unrhyw gynllun i waredu gwastraff ymbelydrol i'w gwneud yn bosibl i bennu p'un a yw'r broses o weithredu'r cyfryw gynllun yn debygol o achosi halogiad ymbelydrol mewn Aelod-wladwriaeth arall.

Y sail gyfreithiol

7. Mae'r cysyniad o Gyfiawnhad yn seiliedig ar yr egwyddor a dderbynnir yn rhyngwladol sy'n ymwneud â diogelwch radiolegol, sef na ddylid mabwysiadu unrhyw arfer sy'n cynnwys amlygu unigolyn i ymbelydredd ïoneiddio oni fydd yn cyflwyno manteision digonol i'r unigolion hynny neu i gymdeithas yn gyffredinol er mwyn gwrthbwyso'r niwed y gallai ei achosi i iechyd. Mae'r egwyddor hon yn

deillio o argymhellion y Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelwch Ymbelydrol (ICRP) ac, yn arbennig, ICRP 60. Fe'i hymgorfforwyd o fewn cyfraith y Gymuned Ewropeaidd drwy erthyglau 6(1) a (2) o Gyfarwyddeb 96/29/Euratom ('y Gyfarwyddeb Safonau Diogelwch Sylfaenol'[2]).

8. Gweithredwyd erthyglau 6(1) a (2) yn y DU gan Reoliadau Cyfiawnhau Arferion sy'n Cynnwys Ymbelydredd Ïoneiddio 2004[3] (y Rheoliadau Cyfiawnhau). Golyga Rheoliad 4 o'r Rheoliadau hynny mai dim ond os canfyddir bod dosbarth neu fath newydd o arfer sy'n cynnwys amlygiad i ymbelydredd ïoneiddio wedi'i gyfiawnhau y gellir ei gynnal h.y. bod "Awdurdod Cyfiawnhau" wedi penderfynu ("Penderfyniad Cyfiawnhau") bod y dosbarth neu'r math perthnasol o arfer wedi'i gyfiawnhau gan ei fanteision economaidd, cymdeithasol neu fel arall mewn perthynas â'r niwed y gallai ei achosi i iechyd.

9. Nid yw'r gofyniad o dan erthygl 6 yn gymwys i arferion a gynhaliwyd yn y DU cyn 13eg Mai 2000 na'r rhai y canfuwyd eisoes eu bod wedi'u cyfiawnhau. Caniateir i arferion o'r fath (a elwir yn "arferion presennol") barhau, ar yr amod na wnaed Penderfyniad Cyfiawnhau andwyol mewn perthynas â hwy.

10. Mae Rheoliad 9 o'r Rheoliadau Cyfiawnhau yn amodi y gall unrhyw un wneud cais i Awdurdod Cyfiawnhau am Benderfyniad Cyfiawnhau a bod yn rhaid i'r Awdurdod Cyfiawnhau ystyried ceisiadau o'r fath a phenderfynu arnynt. Gall yr Awdurdod Cyfiawnhau hefyd wneud Penderfyniad Cyfiawnhau ar ei liwt ei hun. Mae Rheoliad 10 yn amodi y gall unrhyw un wneud cais i Awdurdod Cyfiawnhau am adolygiad o arfer presennol os "caiff tystiolaeth newydd a phwysig am effeithiolrwydd neu ganlyniadau'r arfer ei chaffael neu os gwneir Penderfyniad Cyfiawnhau nad yw'r dosbarth neu'r math perthnasol o arfer wedi'i gyfiawnhau".

11. Bydd angen i'r Awdurdod Cyfiawnhau ystyried p'un a yw cais yn ymwneud â dosbarth neu fath o arfer "newydd"[4] neu "bresennol" cyn ystyried p'un a yw'r dosbarth neu'r math o arfer wedi'i gyfiawnhau.

Beth yw "arfer"?

12. Mae'r Gyfarwyddeb yn diffinio "arfer" fel "gweithgarwch pobl a all gynyddu'r graddau y caiff unigolion eu hamlygu i ymbelydredd yn sgîl ffynhonnell artiffisial neu ffynonellau ymbelydredd naturiol lle y defnyddir ei nodweddion ymbelydrol, ymholltol neu ffrwythlon". Bydd yr Awdurdod Cyfiawnhau yn penderfynu beth sy'n gyfystyr â'r dosbarth neu'r math perthnasol o arfer(ion) unwaith y bydd wedi derbyn cais/ceisiadau.

Awdurdodau cyfiawnhau

13. Mae pedwar Awdurdod Cyfiawnhau yn y DU, sef, yr Ysgrifennydd Gwladol[5] a'r tair Gweinyddiaeth Ddatganoledig i'r graddau y maent yn gymwys o ran testun cais cyfiawnhau penodol. Fodd bynnag, gan fod ynni niwclear yn fater a gedwir yn ôl, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, sef yr unig Awdurdod Cyfiawnhau yn y DU, fydd yn gyfrifol am ddod i benderfyniad cyfiawnhau. Felly, bydd unrhyw benderfyniad Cyfiawnhau yn gymwys ledled y DU. Fel yr Awdurdod

2 Cyfarwyddeb y Cyngor 96/29 Euratom a wnaed ar 13 Mai 1996 sy'n pennu safonau diogelwch sylfaenol ar gyfer diogelu iechyd gweithwyr a'r cyhoedd yn erbyn y peryglon sy'n deillio o ymbelydredd ïoneiddio. (O.J.L 159 29/06/1996 t.1).

3 Offeryn Statudol 2004/1769

4 Mae dosbarth neu fath o arfer yn "newydd" at ddibenion y Rheoliadau Cyfiawnhau pe na chynhaliwyd arfer yn y dosbarth neu'r math hwnnw yn y Deyrnas Unedig cyn 13 Mai 2000, a phe canfuwyd nad oedd y dosbarth neu'r math o arfer wedi'i gyfiawnhau.

5 O ran ynni niwclear sifil, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant yw hwn.

Cyfiawnhau, bydd yr Adran Masnach a Diwydiant, yn unol â Rheoliad 18(2) o'r Rheoliadau Cyfiawnhau, yn ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig cyn adolygu arfer presennol, penderfynu p'un a yw arfer yn newydd, a chyn dod i benderfyniad Cyfiawnhau. Mae'n ofynnol iddi ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig hefyd cyn cyflawni rhai swyddogaethau eraill o dan y Rheoliadau, megis ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr roi rhagor o wybodaeth. Ceir Concordat[6] rhwng y Llywodraeth a'r Gweinyddiaethau Datganoledig sy'n nodi'r cysylltiadau gwaith (yn cynnwys y broses o sefydlu Grŵp Cyswllt Cyfiawnhau) mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r setliadau datganoli.

Niwed i iechyd

14. Un o nodweddion allweddol Cyfiawnhad yw'r gofyniad i asesu'r niwed i iechyd y gallai dosbarth neu fath o arfer ei achosi. Byddai angen i unrhyw un sy'n ceisio Cyfiawnhad gadarnhau bod y niwed i iechyd o ganlyniad i weithredu'r gweithgarwch arfaethedig (yn cynnwys storio a gwaredu gwastraff a dadgomisiynu) yn cydymffurfio ag egwyddorion a safonau radiolegol. Mae'r egwyddorion a'r safonau hyn wedi'u cynllunio i helpu i sicrhau y caiff unrhyw effaith o ran iechyd i weithwyr ac i aelodau'r cyhoedd ei lleihau.

15. Caiff ymbelydredd ïoneiddio ei ollwng gan sawl math o ddeunyddiau sy'n digwydd yn naturiol, a chaiff pawb eu hamlygu i rywfaint o ymbelydredd cefndir naturiol. Wrth ystyried effaith radiolegol, tybir yn ddoeth bod unrhyw amlygiad i ymbelydredd ïoneiddio yn peri risg i iechyd a bod y risg hon yn gymesur â'r dogn, hyd at ddognau cymharol fawr. Fodd bynnag, mae'r risg sy'n gysylltiedig â lefel y dogn y caiff pobl eu hamlygu iddo, yn fach iawn. Daw mwyafrif y dogn blynyddol o ymbelydredd (84%) yn y DU o ffynonellau naturiol, megis radion o greigiau yn y ddaear a phelydrau cosmig o'r gofod. Mae a wnelo'r ffynhonnell fwyaf o amlygiad o waith dyn â gweithdrefnau meddygol (15% o amlygiad blynyddol ar y cyfan), a hynny o bell ffordd. Mae'r dogn blynyddol cyfartalog i aelod o'r cyhoedd o ganlyniad i ymbelydredd o'r diwydiant ynni niwclear yn 0.01% o'r dogn cyfartalog blynyddol o bob ffynhonnell arall.

16. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol bod y lefel y caiff gweithwyr a'r cyhoedd eu hamlygu i ymbelydredd o safleoedd niwclear yn cael ei chadw o dan lefelau cyfreithiol llym, ac y cânt eu lleihau ymhellach mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

17. Bydd angen i ymgeiswyr sy'n ceisio cyfiawnhad ar gyfer technolegau gorsafoedd ynni niwclear newydd ddangos y caiff unrhyw niwed i iechyd ei wrthbwyso gan y manteision sy'n gysylltiedig â'r arfer. Gall manteision gwmpasu manteision economaidd, cymdeithasol neu fanteision eraill.

6 *Concordat on the implementation of the Justification of Practices involving Ionising Radiation Regulations* 2004, http://www.defra.gov.uk/environment/radioactivity/government/legislation/pdf/concordat-justification.pdf

Adran 2: Y broses Gyfiawnhau

18. Yn dibynnu ar ganlyniadau ei ymgynghoriad niwclear, a phe bai'r Llywodraeth yn cadarnhau ei barn ragarweiniol sef bod gan y broses o gynhyrchu ynni niwclear ran i'w chwarae yng nghymysgedd cynhyrchu trydan y DU, rhagwelir y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn ceisiadau i gyfiawnhau technolegau gorsafoedd ynni niwclear newydd o dan y Rheoliadau Cyfiawnhau.[7] Mae'r Llywodraeth wedi llunio canllawiau yn flaenorol ar y Rheoliadau Cyfiawnhau. Fodd bynnag, mae a wnelo'r canllawiau hynny â Chyfiawnhad yn gyffredinol ac nid ydynt yn ymdrin yn benodol ag ynni niwclear. Felly, mae'r Llywodraeth wedi ystyried y broses o wneud ac ystyried unrhyw geisiadau ar gyfer cyfiawnhad, y "broses Gyfiawnhau" mewn perthynas ag ynni niwclear, ac mae proses arfaethedig wedi'i nodi yn y ddogfen hon.

Rhoi cyhoeddusrwydd i'r broses/crynodeb o'r broses

19. Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar y broses gyfiawnhau arfaethedig drwy'r ddogfen hon. Ar yr amod y cadarnheir y broses i'w dilyn, disgwyliwn y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r broses Gyfiawnhau:

- drwy nodi manylion y canllawiau Cyfiawnhau i ymgeiswyr a gofyn am geisiadau ar wefan yr Adran Masnach a Diwydiant a thrwy ymgyrch bostio i bartïon â diddordeb (e.e. gwerthwyr a gweithredwyr adweithyddion, ymgynghoreion statudol, Adrannau eraill o'r Llywodraeth, Gweinyddiaethau Datganoledig a sefydliadau anllywodraethol);
- drwy gyhoeddi ceisiadau a dderbynnir gan ymgeiswyr i roi cyfle i'r cyhoedd roi sylwadau arnynt, er enghraifft, drwy flwch post penodedig;
- lle y bo'n briodol, drwy ofyn am wybodaeth ategol gan ymgeiswyr a gwahodd safbwyntiau ar hynny hefyd;
- drwy ymgynghori ar ddogfen benderfynu ddrafft;
- bydd angen i ni ystyried a ddylid cynnal ymchwiliad neu wrandawiad fel rhan o'r broses benderfynu. O dan Reoliad 17 o'r Rheoliadau Cyfiawnhau, mae pŵer i gynnal ymchwiliad neu wrandawiad o'r fath, er nad oes gofyniad i wneud hynny. Caiff penderfyniad ei wneud yn ystod y broses asesu o dan y Rheoliadau Cyfiawnhau; a
- drwy gyhoeddi ei chasgliadau mewn dogfen benderfynu sy'n nodi cefndir ei chanfyddiadau a'r sail iddynt.

Amserlen Ddangosol

23 Mai 2007	Ymgynghoriad ar y broses gyfiawnhau ddrafft hon yn dechrau.
10 Hydref 2007	Ymgynghoriad yn cau.
10 Hydref – diwedd 2007	Y Llywodraeth yn ystyried sylwadau.

Os bydd y Llywodraeth yn cadarnhau ei barn ragarweiniol fod gan y broses o gynhyrchu ynni niwclear ran i'w chwarae yng nghymysgedd cynhyrchu ynni'r DU yn y dyfodol.

Dechrau 2008	Y Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau i ymgeiswyr ar y broses Gyfiawnhau ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd.
Dechrau 2008	Y Llywodraeth yn cyhoeddi "galwad am geisiadau" ar gyfer Cyfiawnhad sy'n ymwneud â gorsafoedd ynni niwclear newydd.

Nodir disgrifiad o'r broses ddangosol y tu hwnt i ddechrau 2008 yn Ffigur 1.

7 http://www.defra.gov.uk/environment/radioactivity/government/legislation/pdf/justification-guidance.pdf

Adran 3: Y broses ar gyfer gwneud ac ystyried ceisiadau

20. Os bydd y Llywodraeth yn digwydd penderfynu cadarnhau ei barn ragarweiniol fod gan y broses o gynhyrchu ynni niwclear ran i'w chwarae yng nghymysgedd cynhyrchu ynni'r DU yn y dyfodol, dylai'r broses gyfiawnhau arfaethedig ar gyfer technolegau gorsafoedd ynni niwclear newydd allu ymdrin â'r gwaith arfaethedig o gyflwyno technolegau gorsafoedd ynni niwclear newydd i'r DU. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn rhagweld mai dim ond y technolegau hynny sydd wedi'u datblygu ddigon i allu gweithredu yn y DU o fewn y 15-20 mlynedd nesaf sy'n debygol o gael eu cyflwyno ar gyfer Penderfyniad Cyfiawnhau.

"Gofyn am geisiadau"

21. Pe cadarnheid barn ragarweiniol y Llywodraeth ar gynhyrchu ynni niwclear newydd, cynigir y byddai'r Llywodraeth yn "gofyn am geisiadau" cyn gynted ag y bydd y canllawiau ar y broses gyfiawnhau wedi'u cwblhau'n derfynol a'u cyhoeddi. Ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn disgwyl y byddai hyn yn digwydd ddechrau 2008.

22. Mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd cynnig cyfnod cyfyngedig o amser ar gyfer derbyn ceisiadau yn sicrhau proses gyfiawnhau fwy effeithlon. Credwn hefyd y bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd, eglurder a hygyrchedd i ymgeiswyr, rheoleiddwyr, ymgynghoreion statudol a'r cyhoedd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal ceisiadau am gyfiawnhad rhag cael eu gwneud ar unrhyw adeg arall.

23. Ar ôl derbyn cyflwyniadau gan ymgeiswyr, gall yr Awdurdod Cyfiawnhau ofyn am i wybodaeth ychwanegol gael ei rhoi.

Cwestiwn 1a: A yw cynlluniau'r Llywodraeth i strwythuro'r broses Gyfiawnhau arfaethedig drwy "ofyn am geisiadau" am gyfnod cyfyngedig o amser yn ddefnyddiol?

Sut y bydd y Llywodraeth yn Ystyried Ceisiadau?

24. Er mwyn i'r Awdurdod Cyfiawnhau gyrraedd Penderfyniad Cyfiawnhau, bydd angen iddo werthuso cryn dipyn o wybodaeth, y bydd rhywfaint ohoni yn dechnegol.

25. Lle y bydd angen, felly, bydd yr Awdurdod Cyfiawnhau yn gofyn am gyngor gan arbenigwyr technegol ac arbenigwyr eraill. Cyn i'r Awdurdod Cyfiawnhau ddod i benderfyniad, cynigir y dylai'r broses gyfiawnhau ddilyn cyfres o gamau, mewn modd a ddylai fod o gymorth i ymgeiswyr, rheoleiddwyr, ymgynghoreion statudol a phob parti arall â diddordeb. Nodwn y camau arfaethedig isod, er ei bod yn bosibl y gallai'r dilyniant newid (gweler Tabl 1).

26. Ar ôl cyhoeddi canllawiau ar y broses gyfiawnhau a gofyn am geisiadau, cynigir y dylai'r Awdurdod Cyfiawnhau gyhoeddi ceisiadau wrth iddynt gyrraedd i roi cyfle i'r cyhoedd ac eraill roi sylwadau arnynt. Os oes angen gwybodaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd, caiff y wybodaeth honno ei chyhoeddi hefyd a rhoddir cyfle i'r cyhoedd roi sylwadau arni. Efallai y bydd angen cyhoeddi gwybodaeth ar ffurf ddiwygiedig lle bydd yn cynnwys gwybodaeth sensitif, er mai bwriad y Llywodraeth fydd cyfyngu ar yr angen i wneud hyn. Bydd yr Awdurdod Cyfiawnhau yn ymgynghori â'r ymgynghoreion statudol (gweler Cam 5), y Gweinyddiaethau Datganoledig, Adrannau perthnasol o'r Llywodraeth a phartïon â diddordeb (e.e. Llywodraethau tramor, sefydliadau anllywodraethol, diwydiant). Wedyn, (Camau 6 a 7) bydd yr Awdurdod Cyfiawnhau yn ystyried

yr holl sylwadau a gafodd ac yn llunio dogfen benderfynu ddrafft, sy'n nodi ei asesiad o fanteision ac anfanteision y dosbarth neu'r math o arfer, ac yn ymgynghori ar y ddogfen hon. Yna, bydd yr Awdurdod Cyfiawnhau yn ystyried yr holl sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori cyn llunio dogfen benderfynu derfynol ar gyfer penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

27. Nodir disgrifiad manylach o'r holl gamau a gynigiwn yn Nhabl 1. Nodir y prif gamau hefyd yn Ffigur 1.

TABL 1	Y BROSES GYFIAWNHAU
Cam	Disgrifiad
1	Llunio canllawiau i ymgeiswyr a gofyn am geisiadau.
2	Derbyn a chyhoeddi ceisiadau am gyfiawnhad, sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd ac eraill roi sylwadau ar geisiadau.
3	Ar ôl derbyn cais, bydd angen i'r Awdurdod Cyfiawnhau ystyried p'un a yw'n ymwneud â dosbarth neu fath "newydd" neu "bresennol" o arfer. Os yw'n ymwneud â dosbarth neu fath "newydd" o arfer, bydd angen i'r Awdurdod Cyfiawnhau asesu cyfiawnhad. Os yw'n ymwneud â dosbarth neu fath presennol o arfer, bydd angen i'r Awdurdod Cyfiawnhau ystyried p'un a ddylid adolygu'r broses o gyfiawnhau'r dosbarth neu'r math hwnnw o arfer. Dim ond os caffaelwyd tystiolaeth newydd neu bwysig ynghylch effeithiolrwydd neu ganlyniadau'r dosbarth neu'r math o arfer y gall wneud hynny.
4	Asesu p'un a roddwyd digon o wybodaeth gan ymgeiswyr a, lle y bo angen, ofyn am wybodaeth ychwanegol. Caiff unrhyw wybodaeth ychwanegol ei chyhoeddi.
5	Ymgynghori ag ymgynghoreion statudol (yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yr Asiantaeth Diogelu Iechyd, Asiantaeth yr Amgylchedd/Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban, Adran yr Amgylchedd, Gogledd Iwerddon), Gweinyddiaethau Datganoledig ac Adrannau perthnasol o'r Llywodraeth, partïon eraill â diddordeb a'r cyhoedd.
6	Asesu ceisiadau a sylwadau, casglu gwybodaeth ychwanegol a gofyn am gyngor arbenigol lle bydd angen.
7	Paratoi dogfen benderfynu ddrafft ac ymgynghori arni.
8	Ystyried ymatebion ymgynghori ar y ddogfen benderfynu ddrafft.
9	Paratoi'r ddogfen benderfynu derfynol er mwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ei hystyried.
10	Gwneud penderfyniad Cyfiawnhau ar ffurf is-ddeddfwriaeth (Offeryn Statudol).

FFIGUR 1. Y BROSES GYFIAWNHAU ARFAETHEDIG



Cwestiwn 1b: A yw'r broses arfaethedig o wneud cais, cynnal asesiad a gwneud penderfyniadau yn glir, yn briodol ac yn gymesur? Os nad ydyw, sut y gellir ei gwella?

Pa wybodaeth a ddylai ymgeisydd ei rhoi?

28. Yn unol â'r Rheoliadau Cyfiawnhau, cynigir y dylai ymgeisydd roi digon o wybodaeth i alluogi'r Awdurdod Cyfiawnhau i gynnal asesiad lefel uchel o'r manteision economaidd neu gymdeithasol net neu'r manteision eraill yn erbyn anfanteision iechyd cyflwyno technoleg niwclear newydd ar gyfer cynhyrchu trydan yn y DU.

29. Ceir rhestr ddangosol yn Atodiad A o'r wybodaeth a ddisgwylir gan ymgeiswyr.

Cwestiwn 1c: A yw'r rhestr ddangosol o wybodaeth, a ddisgrifir yn Atodiad A, yn briodol i ymgeiswyr allu gwneud cais?

Sut y bydd y Llywodraeth yn ystyried ceisiadau lluosog?

30. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried sut y dylai'r broses Gyfiawnhau ymdrin â cheisiadau cydamserol sy'n cwmpasu nifer o dechnolegau gorsafoedd ynni penodol ac a ddylai wneud hynny[8]. Cynigiwn y dylid asesu technolegau ymgeiswyr gyda'i gilydd, lle y bo'n bosibl. Gallai hyn olygu y nodir canlyniadau asesiad yn yr un ddogfen benderfynu ddrafft, yn hytrach na mewn cyfres o ddogfennau penderfynu lle y caiff technolegau ymgeiswyr eu hystyried ar wahân.

8 Nexia Solutions, *Justification Process of New Nuclear Power stations in the UK: A Discussion of the Basis for Considering Different Reactor Systems*, Ebrill 2007. http://www.dti.gov.uk/energy/whitepaper

31. Fodd bynnag, pe byddai cais yn cynnwys technoleg gorsafoedd ynni niwclear a oedd yn wahanol iawn o ran ei manteision a'i hanfanteision i'r technolegau eraill dan ystyriaeth, yna gallai fod angen asesu Cyfiawnhad y dechnoleg honno, a pharatoi dogfen benderfynu ddrafft ar wahân ac ymgynghori arni. Waeth p'un a ystyrir bod angen cynnal un neu fwy o brosesau i ystyried y technolegau a gyflwynir ai peidio, gallai fod yn briodol dod i benderfyniadau Cyfiawnhau ar wahân ar gyfer pob technoleg. Nid yw'r Llywodraeth yn disgwyl gallu llunio barn derfynol ar y materion hyn hyd nes y derbynnir cais.

Cwestiwn 1ch: Lle y bo'n bosibl, mae'r Llywodraeth yn bwriadu ystyried ceisiadau cydamserol am Gyfiawnhad (o ran technolegau gorsafoedd ynni niwclear newydd) drwy broses asesu Cyfiawnhad unigol. A yw cynnig y Llywodraeth yn briodol?

Cwestiwn 1d: A ellir gwella'r broses Gyfiawnhau ddrafft mewn unrhyw ffyrdd eraill? Os gellir gwneud hynny, croesewir eich awgrymiadau.

Atodiad A: Cynnwys dangosol cais am Gyfiawnhad

1. Dengys yr Atodiad hwn y wybodaeth y byddai disgwyl i bartïon sy'n ceisio cyfiawnhad ei rhoi i'r Awdurdod Cyfiawnhau os bydd y Llywodraeth yn digwydd cadarnhau ei barn ragarweiniol sef bod gan y broses o gynhyrchu ynni niwclear ran i'w chwarae yng nghymysgedd cynhyrchu ynni'r DU yn y dyfodol.

2. Ni fwriedir i'r Atodiad hwn fod yn rhagnodol ond yn hytrach dengys y brif wybodaeth sy'n debygol o fod yn angenrheidiol i alluogi asesiad clir, lefel uchel o'r anfanteision iechyd a'r manteision economaidd a chymdeithasol net a'r manteision eraill sy'n gysylltiedig â chyflwyno technoleg benodol. Er eu bod yn mynegi eu barn eu hunain ar yr hyn a allai fod yn berthnasol, anogir ymgeiswyr serch hyn, i ddilyn y canllawiau a nodir isod.

3. Er mwyn hwyluso'r Penderfyniad Cyfiawnhau, bydd angen gwybodaeth ar yr Awdurdod Cyfiawnhau am fanteision ac anfanteision disgwyliedig y dechnoleg gorsafoedd ynni niwclear arfaethedig y gwneir y cais amdani. Yn ogystal ag anfanteision disgwyliedig (e.e. arllwysiadau ymbelydrol rheoledig arferol, amlygiad arferol gweithwyr i ymbelydredd) dylai'r ymgeisydd roi gwybodaeth am anfanteision annisgwyl neu anfanteision posibl (e.e. amlygiadau radiolegol o ganlyniad i ddamweiniau). O ran anfanteision posibl, dylai'r ymgeisydd esbonio sut y caiff y risgiau a berir ganddynt eu rheoli'n ddigonol neu eu lliniaru o dan derfynau rheoliadol derbyniol. Bydd rhywfaint o hyn yn ofynnol hefyd fel rhan o'r broses drwyddedu gyffredinol.

4. Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr hefyd yn dymuno rhoi gwybodaeth ychwanegol a fydd yn cadarnhau eu cais, yn eu barn hwy, yn cynnwys adroddiadau arbenigol a gwaith a gomisiynwyd gan yr ymgeisydd.

Rhestr ddangosol o wybodaeth

5. Nodir rhestr o'r wybodaeth ddangosol i'w rhoi isod:

GWYBODAETH OFYNNOL	CANLLAWIAU
Gwybodaeth ragarweiniol am y dechnoleg arfaethedig	
Disgrifiad o'r dechnoleg arfaethedig	Gall ymgeiswyr gyflwyno un dechnoleg, neu un neu fwy o dechnolegau. Dylai ymgeiswyr ystyried rhoi gwybodaeth yn y meysydd canlynol: • crynodeb o dechnoleg, cyflenwyr/gwerthwyr a phrif nodweddion technegol (e.e. allbwn trydanol, math o danwydd a'i ffynhonnell, cylch tanwydd, gwastraff a chynlluniau dadgomisiynu ac ati). Cadarnhau p'un a wneir y cais o dan Reoliad 9 o Reoliadau 2004 ar gyfer penderfyniad o ran dosbarth neu fath newydd o arfer.
Anfanteision iechyd	
Anfanteision iechyd	Dylai ymgeiswyr roi gwybodaeth yn esbonio sut y gall y dechnoleg arfaethedig achosi niwed radiolegol i iechyd pobl. Gallai'r meysydd i'w cwmpasu gynnwys: • anfanteision iechyd i'r cyhoedd, gweithwyr safleoedd a grwpiau penodol eraill o'r boblogaeth; • gweithredu arferol ac amodau damweiniau; ac • esbonio sut y bydd strategaethau gweithredu a lliniaru cynlluniau yn lleihau'r risg o amlygiadau radiolegol damweiniol ac i ba raddau y byddant yn digwydd yn is na therfynau rheoliadol.
Manteision ac anfanteision economaidd, cymdeithasol neu eraill	
Diogelwch ffisegol cyflenwadau trydan	Gall ymgeiswyr roi gwybodaeth sy'n esbonio sut y byddai'r dechnoleg arfaethedig o fudd i ddiogelwch ffisegol cyflenwadau neu'n effeithio'n andwyol ar hynny. Gallai'r meysydd i'w cwmpasu gynnwys: • manteision ac anfanteision sy'n gysylltiedig â safle allbwn ynni parhaus; • bod yn agored i amrywiadau o ran argaeledd tanwydd; • gwerth cymysgedd portffolio mwy neu lai amrywiol; • strategaethau lliniaru, trefniadau rheoliadol a sicrwydd cysylltiedig i fynd i'r afael ag anfanteision a risgiau; a • manteision ac anfanteision eraill.
Lleihau carbon	Gall ymgeiswyr roi gwybodaeth yn esbonio sut y byddai'r dechnoleg arfaethedig yn dangos ei hôl-troed carbon isel ac yn gweithredu fel mantais neu anfantais i ollyngiadau a nwyon tŷ gwydr eraill. Gallai'r meysydd i'w cwmpasu gynnwys: • yr holl ollyngiadau ar draws y cylch bywyd llawn; • cyfraniad net i ollyngiadau cyffredinol y DU; • gollyngiadau pe na bai'r dechnoleg arfaethedig wedi'i chyfiawnhau.

GWYBODAETH OFYNNOL	CANLLAWIAU
	• strategaethau lliniaru, trefniadau rheoliadol a sicrwydd cysylltiedig i fynd i'r afael ag anfanteision a risgiau; a • manteision ac anfanteision eraill.
Manteision ac anfanteision amgylcheddol eraill	Gall ymgeiswyr roi gwybodaeth sy'n esbonio sut y byddai'r dechnoleg arfaethedig yn gweithredu ymhellach fel mantais a/neu anfantais i'r amgylchedd. Gallai'r meysydd i'w cwmpasu gynnwys: • effeithiau nad ydynt yn rhai radiolegol ar bobl a'r amgylchedd (dŵr, aer, cemegion, golau, thermol, sŵn, tirwedd, iechyd anifeiliaid, fflora/ffawna ac ati); • effeithiau radiolegol ar fflora/ffawna; • gweithredu arferol ac amodau damweiniau yn cynnwys rheoli a gwaredu gwastraff (ymbelydrol ac anymbelydrol); • strategaethau lliniaru damweiniau, trefniadau rheoliadol a sicrwydd cysylltiedig i fynd i'r afael ag anfanteision a risgiau; • sicrwydd a roddir yn erbyn risgiau a nodwyd (yn cynnwys cyfeiriad at y gyfundrefn reoleiddio); a • manteision ac anfanteision eraill.
Gwastraff a dadgomisiynu	Dylai ymgeiswyr roi gwybodaeth sy'n esbonio sut yr ymdrinnid â dadgomisiynu a'r gwaith o reoli a gwaredu gwastraff. Gallai'r meysydd i'w cwmpasu gynnwys: • natur a lefel y gwastraff ymbelydrol y gellid disgwyl iddo gael ei gynhyrchu; • nodweddion y cynllun sy'n hwyluso dadgomisiynu; • strategaethau lliniaru, trefniadau rheoliadol a sicrwydd cysylltiedig i fynd i'r afael ag anfanteision a risgiau[9]; a • manteision ac anfanteision eraill.
Manteision ac anfanteision eraill	Dylai ymgeiswyr roi gwybodaeth am fanteision pwysig eraill neu anfanteision posibl y dosbarth neu'r math arfaethedig o arfer. Gallai'r meysydd i'w cwmpasu gynnwys: • cludo tanwydd a gwastraff; • atal twf arfogaeth niwclear; • anfanteision anymbelydrol i iechyd mewn amodau arferol/damweiniau; • diogelwch – niwclear, diwydiannol ac arferol/damweiniau; • strategaethau lliniaru, trefniadau rheoliadol a sicrwydd cysylltiedig i fynd i'r afael ag anfanteision a risgiau; a • manteision ac anfanteision economaidd, cymdeithasol eraill neu fanteision ac anfanteision eraill.

9 Ar hyn o bryd, mae amodau'r drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid trwyddedau lunio trefniadau digonol ar gyfer dadgomisiynu unrhyw safle neu broses a allai effeithio ar ddiogelwch a'u gweithredu (Amod 35(1) y Drwydded).

PENNOD 3

Ymgynghoriad ar y broses arfaethedig o gyfuno Asesiad o Safleoedd Strategol ac Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd

Adran 1: Cyflwyniad a chwestiynau'r ymgynghoriad

1. Mewn datganiad ysgrifenedig gan Dŷ'r Cyffredin (Hansard 8 Ionawr 2007: Colofn 302W) ac yn Ymgynghoriad yr Adran Masnach a Diwydiant ar y Fframwaith Polisi ar gyfer Adeiladu Gweithfeydd Niwclear Newydd (a gyhoeddwyd ar 11 Gorffennaf 2006), cyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i gynnal Asesiad o Safleoedd Strategol a fyddai'n penderfynu pa mor addas yw safleoedd posibl i gynhyrchu trydan niwclear newydd. Byddai canlyniadau'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn llywio datganiad polisi dilynol y Llywodraeth ar safleoedd gorsafoedd ynni niwclear newydd, fel rhan o Ddatganiad Polisi Cenedlaethol posibl ar orsafoedd ynni niwclear newydd.

2. Dim ond os bydd y Llywodraeth yn cadarnhau ei barn ragarweiniol fod gan y broses o gynhyrchu trydan niwclear ran i'w chwarae yng nghymysgedd cynhyrchu trydan y DU yn y dyfodol y gweithredid ar yr Asesiad o Safleoedd Strategol.

3. Byddai ystyried effeithiau amgylcheddol y broses o adeiladu, gweithredu a dadgomisiynu gorsafoedd ynni niwclear yn rhan allweddol o benderfyniadau ar leoliad safleoedd. Mae'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Asesiadau Amgylcheddol Strategol[10] a rheoliadau gweithredu'r DU ei hun yn ei gwneud yn ofynnol bod ffactorau o'r fath yn cael eu hystyried wrth ddatblygu cynlluniau neu raglenni a fydd yn effeithio ar yr amgylchedd.

4. Diben y rhan hon o'r ymgynghoriad yw ceisio barn ar gynnig y Llywodraeth ar gyfer y **broses** a ddefnyddid i gynnal yr Asesiad o Safleoedd Strategol – hynny yw, y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer ymgynghori ar feini prawf lleoli a safleoedd yn y DU a allai fod yn addas i adeiladu a gweithredu gorsafoedd ynni niwclear newydd ac yna eu nodi.

5. Cynigiwn y dylid datblygu'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn y tri cham canlynol:

Cam 1:

Ymgynghori ar gynnig ar gyfer meini prawf gwaharddol a dewisol drafft i'w cymhwyso yn yr Asesiad o Safleoedd Strategol.

10 Cyfarwyddeb 2001/42/EC a wnaed ar 27 Mehefin 2001 ar y gwaith o asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd (O.J. L197, 21.7.2001, t.30)

Cam 2:
Cyhoeddi'r meini prawf gwaharddol a dewisol, a nodi'r ardaloedd daearyddol hynny a fyddai'n debygol o gael eu diystyru naill ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan y meini prawf gwaharddol. Gwahodd enwebiadau ar gyfer safleoedd posibl ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd.

Cam 3:
Ymgynghori ar restr ddrafft o safleoedd posibl a ddewiswyd o'r rhai a enwebwyd y barnwyd eu bod wedi bodloni'r meini prawf dewisol, ac nas diystyrwyd gan y meini prawf gwaharddol.

6. Os daw'r Llywodraeth i'r casgliad bod gan y broses o gynhyrchu trydan niwclear ran i'w chwarae yng nghymysgedd cynhyrchu ynni'r DU yn y dyfodol, byddem yn anelu at lunio penderfyniad erbyn diwedd 2007 neu ddechrau 2008 gan nodi sut y cynhelid yr Asesiad o Safleoedd Strategol, ar ôl ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ofalus.

7. Mae paragraffau 11-18 o'r bennod hon yn amlinellu polisïau ac arferion lleoli gorsafoedd ynni niwclear hanesyddol a'r hyn a olygwn wrth Asesiad o Safleoedd Strategol. Ar ddiwedd Adran 1, nodwn gwestiynau'r ymgynghoriad y ceisir barn arnynt mewn perthynas â phroses arfaethedig yr Asesiad o Safleoedd Strategol, a'r amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.

8. Amlinella Adran 2 amcanion yr Asesiad o Safleoedd Strategol yn fanylach a sut y byddai'n effeithio ar y broses o roi caniatâd cynllunio mewn perthynas ag adeiladu gorsafoedd ynni niwclear newydd. Noda Adran 2 hefyd fanylion deddfwriaeth amgylcheddol sy'n berthnasol i'r Asesiad o Safleoedd Strategol, gan ystyried sefyllfa'r gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â'r Asesiad hwnnw.

9. Disgrifia Adran 3 broses arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer datblygu'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn fanwl, gan ddilyn y tri cham a restrir ym mharagraff 5. Amlinella hefyd sut y gellid cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol yn y broses hon.

10. Noda Atodiad B, at ddibenion gwybodaeth yn unig, rywfaint o feini prawf dangosol ar gyfer yr Asesiad o Safleoedd Strategol. Byddai'r Llywodraeth yn ymgynghori ar ystod ehangach o feini prawf, pe byddem yn parhau gyda'r Asesiad o Safleoedd Strategol. Croesewir unrhyw sylwadau ar y meini prawf dangosol hyn, er mai diben yr ymgynghoriad hwn yw gwahodd safbwyntiau ar y broses arfaethedig ar gyfer cynnal yr Asesiad o Safleoedd Strategol, fel y nodir yn Adran 3, nid y meini prawf eu hunain.

Polisïau ac arferion hanesyddol o ran lleoli gorsafoedd
11. Ers canol y 1950au, mae Llywodraethau olynol wedi gwneud nifer o ddatganiadau polisi sy'n ymwneud â lleoli gorsafoedd ynni niwclear, gan ddechrau gyda'r Papur Gwyn, *A programme of Nuclear Power*, yn 1955. Yn wreiddiol, roedd y meini prawf yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion demograffig. Roedd yn bolisi gan y llywodraeth na ddylai'r genhedlaeth gyntaf o adweithyddion, er yr ystyrid eu bod yn ddiogel, gael eu lleoli mewn ardaloedd adeiledig iawn. Felly, adeiladwyd y gorsafoedd Magnox cenhedlaeth gyntaf ar safleoedd yr ystyriwyd bryd hynny eu bod yn anghysbell.

12. Yn y 1960au, llaciwyd y meini prawf lleoli demograffig ar gyfer yr adweithyddion datblygedig wedi'u hoeri gan nwy, yng ngoleuni'r datblygiadau o ran cynllun a phrofiad o weithredu, a arweiniodd at leoli dwy orsaf (Heysham a Hartlepool) mewn ardaloedd y gellid eu diffinio fel ardaloedd "lled-drefol". Pan

gynigiwyd adweithydd dŵr ysgafn cyntaf y DU yn y 1970au, cytunodd y Llywodraeth a'r rheoleiddwr diogelwch y câi'r polisi lleoli "anghysbell" a cheidwadol blaenorol ei fabwysiadu ar gyfer technoleg adweithyddion a oedd yn newydd i'r DU. Adeiladwyd adweithydd dŵr ysgafn cyntaf y DU yn y pen draw yn agos at safle Magnox yn Sizewell.

13. Daeth y profiad diweddaraf o werthuso a dewis safleoedd, yng nghyd-destun cais ffurfiol i adeiladu gorsaf ynni niwclear newydd, yn ystod Ymchwiliadau Cyhoeddus Sizewell B a Hinkley Point C yn y 1980au[11,12]. Ystyriwyd y sail dros y penderfyniad i leoli adweithyddion newydd ar y ddau safle gan yr Arolygydd ym mhob ymchwiliad cyhoeddus. Ni wnaeth Arolygydd yr ymchwiliad wrthod y cynnig i leoli yn y naill safle na'r llall a rhoddwyd caniatâd cynllunio i bob un yn dilyn hyn.

14. Nodir y modd y bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn mynd ati i benderfynu ar addasrwydd safle niwclear newydd arfaethedig, o ran diogelwch, yn Egwyddorion Asesu Diogelwch yr Awdurdod a ddiwygiwyd yn ddiweddar ar gyfer Cyfleusterau Niwclear[13]. Noda'r Egwyddorion Asesu Diogelwch yr egwyddorion a ddilynir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i asesu'r dadleuon diogelwch a gyflwynir gan ymgeiswyr ar gyfer trwydded safle niwclear a chan ddeiliaid trwydded presennol a deiliaid dyletswyddau eraill, er mwyn sicrhau y cyrhaeddir safonau uchel o ran diogelwch niwclear a rheoli gwastraff ymbelydrol. Caiff yr Egwyddorion Asesu Diogelwch eu meincnodi yn erbyn y safonau a gynhyrchwyd gan yr Asiantaeth Ynni Atomig Rhyngwladol sy'n adlewyrchu arfer da y cytunir arno'n rhyngwladol.

15. Byddai'r meini prawf lleoli i'w datblygu fel rhan o'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn ystyried yr Egwyddorion Asesu Diogelwch i sicrhau cysondeb rhwng y ddau lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd isod, diben yr Asesiad o Safleoedd Strategol fyddai ystyried ystod eang o ffactorau strategol sy'n mynd y tu hwnt i'r ystyriaethau diogelwch technegol sy'n brif ffocws yr Egwyddorion Asesu Diogelwch. Yn yr un modd, ni fyddai'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn disodli'r angen i unrhyw safleoedd niwclear newydd arfaethedig gydymffurfio â'r gofynion diogelwch llym sy'n ymwneud â safleoedd penodol a nodwyd yn yr Egwyddorion Asesu Diogelwch.

Yr Asesiad o Safleoedd Strategol

16. Byddai'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn ymdrin â materion lleoli sy'n ddigon cyffredinol i ymdrin â hwy'n synhwyrol yn genedlaethol. Mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylid datblygu meini prawf gwaharddol gwrthrychol i nodi'r rhannau hynny o'r DU sy'n annhebygol o fod yn addas i orsafoedd ynni niwclear newydd, ac y dylid datblygu meini prawf dewisol gwrthrychol i asesu addasrwydd unrhyw safleoedd arfaethedig nas diystyrwyd gan y meini prawf gwaharddol. Gallai meini prawf o'r fath gynnwys, er enghraifft, materion amgylcheddol a seilwaith cyffredinol. Byddai cyfres o feini prawf gwaharddol a dewisol gwrthrychol, y cytunir arnynt drwy ymgynghoriad cyhoeddus, yn golygu y gellir cynnal asesiadau ar leoliadau posibl gorsafoedd ynni niwclear newydd yn genedlaethol. Byddai hyn yn darparu cyfiawnhad gwrthrychol a strategol dros unrhyw leoliad arfaethedig a fyddai, yn ei dro, yn llywio'r broses caniatâd cynllunio, megis y broses o roi caniatâd o dan Adran 36 o Ddeddf Trydan 1989.

11 Ymchwiliad Cyhoeddus Sizewell B – Adroddiad Layfield (y Llyfrfa ISBN 0118820435).
12 Ymchwiliadau Cyhoeddus Hinkley Point – Adroddiad Barnes (Cyfrolau 4, 6 a 7 ISBN011412955X).
13 HSE (2006) Safety Assessment Principles for Nuclear Facilities.

17. Fodd bynnag, ni fyddai'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn disodli asesiadau gorfodol ar gyfer prosiectau unigol, yn cynnwys Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o dan gyfraith Ewrop[14] na'r rhai sy'n ofynnol gan Asiantaethau'r Amgylchedd, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac awdurdodau rheoleiddio eraill. Byddai'n rhaid cynnal y rhain fel rhan o unrhyw gais i adeiladu gorsaf ynni niwclear newydd. Felly, er y gallai safle fodloni meini prawf eang yr Asesiad o Safleoedd Strategol, gallai archwiliad manwl o'r safle godi materion a fyddai'n diystyru ei addasrwydd.

18. Yn dibynnu ar ganlyniad y prif ymgynghoriad niwclear, byddai'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn dod i ben yn sgîl cyhoeddi Datganiad Polisi ar leoli, gan nodi meini prawf manwl ynghyd â rhestr o unrhyw safleoedd arfaethedig yr aseswyd eu bod yn bodloni'r meini prawf. Ni fyddai rhestr o'r fath yn gynhwysfawr ac ni fyddai'n atal eraill rhag cael eu cyflwyno yn y dyfodol. Byddai'r Datganiad Polisi yn ei dro, o bosibl, yn dod yn rhan o Ddatganiad Polisi Cenedlaethol ar adeiladu gorsafoedd niwclear newydd.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 2a: A yw'r dull arfaethedig o gynnal Asesiad o Safleoedd Strategol yn ddull rhesymegol o nodi safleoedd addas? Os nad ydyw, sut y gellid ei wella?

Cwestiwn 2b: A yw'r cynnig i ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol yn yr Asesiad o Safleoedd Strategol yn ffordd resymol a chadarn o asesu materion amgylcheddol a fyddai'n cael eu codi yn sgîl adeiladu a gweithredu gorsafoedd ynni niwclear newydd? Os nad ydyw, sut y gellid ystyried materion o'r fath?

Amserlen ddangosol ar gyfer yr ymgynghoriad hwn ar Broses yr Asesiad o Safleoedd Strategol

23 Mai 2007	Yr ymgynghoriad ar broses yr Asesiad o Safleoedd Strategol yn dechrau.
10 Hydref 2007	Yr ymgynghoriad yn cau.
Hydref – Diwedd 2007	Y Llywodraeth yn ystyried y sylwadau. *Os bydd y Llywodraeth yn cadarnhau ei barn ragarweiniol fod gan y broses o gynhyrchu ynni niwclear ran i'w chwarae yng nghymysgedd cynhyrchu'r DU yn y dyfodol.*
Dechrau 2008	Y Llywodraeth yn cyhoeddi proses yr Asesiad o Safleoedd Strategol, ac yn dechrau ar Gam 1 o'r broses a amlinellir ym mharagraff 5. Nodir disgrifiad o Broses ddangosol yr Asesiad o Safleoedd Strategol y tu hwnt i ddechrau 2008 yn Ffigur 2 a Thabl 2.

14 Cyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC a wnaed ar 27 Mehefin 1985 ar y gwaith o asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd (O.J. L175, 5.7.1985, t.40).

Adran 2: Effaith a chwmpas yr Asesiad o Safleoedd Strategol

19. Amlinella'r adran hon nodau'r datganiad polisi a fyddai'n deillio o broses yr Asesiad o Safleoedd Strategol, ac yn arbennig sut y byddai hyn yn ymwneud â'r broses o roi caniatâd cynllunio. Amlinella hefyd y modd y byddai'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn cyd-fynd â deddfwriaeth amgylcheddol bresennol, ac â safbwyntiau gweinyddiaethau datganoledig.

Datganiad polisi'r Asesiad o Safleoedd Strategol

20. Ar ôl cwblhau'r Asesiad o Safleoedd Strategol, y bwriad yw y byddai'r Llywodraeth yn cyhoeddi Datganiad Polisi, a fyddai'n cyd-fynd â'r gyfundrefn gynllunio sydd ar waith ar y pryd (gweler paragraffau 23-27 sy'n cwmpasu'r broses gynllunio bresennol a diwygiadau cynllunio arfaethedig). Byddai'r datganiad polisi yn:

- nodi meini prawf gwaharddol a dewisol y cytunir arnynt, a bennid yn ystod yr Asesiad o Safleoedd Strategol, y gallai darpar ddatblygwyr gorsafoedd ynni niwclear eu cymhwyso i benderfynu p'un a oedd safle arfaethedig yn gydnaws â'r meini prawf ar gyfer safleoedd strategol i leoli gorsaf ynni niwclear newydd;
- nodi ardaloedd o'r DU nas diystyrwyd drwy gymhwyso meini prawf gwaharddol, a lle y gallai fod safleoedd felly sy'n bodloni meini prawf dewisol; a
- darparu mewnbwn i'r gyfundrefn gynllunio gyffredin, ar ffurf Datganiad Polisi sy'n nodi'r meini prawf y cytunwyd arnynt drwy broses yr Asesiad o Safleoedd Strategol. Byddai'r Datganiad Polisi hefyd yn rhestru'r safleoedd hynny a gynigiwyd yn ystod proses yr Asesiad o Safleoedd Strategol sy'n bodloni'r meini prawf. Yna, gallai'r ymchwiliad cynllunio cyhoeddus lleol ganolbwyntio ar faterion lleol sy'n ymwneud ag unrhyw safle o'r fath.

21. Byddai angen i ddatblygwyr posibl dawelu eu meddyliau eu hunain bod safle yn hyfyw yn fasnachol ac yn addas yn lleol, er enghraifft, mewn perthynas ag amodau daearegol lleol. Byddent hefyd yn gyfrifol am gynnal yr Asesiad o Effaith Amgylcheddol safleoedd penodol. Byddai angen i'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol fynd i'r afael â materion amgylcheddol lleol yn fanwl, a byddai'n helpu i ddangos a yw safle'n addas ai peidio, yn ogystal â nodi unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol.

22. Ni fyddai Datganiad Polisi'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn anelu at ddarparu rhestr gynhwysfawr o safleoedd sy'n addas ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd, a fyddai, drwy wneud hynny, yn diystyru unrhyw safleoedd posibl eraill ar gyfer adeiladu yn y dyfodol. Yn dilyn yr Asesiad o Safleoedd Strategol, byddai datblygwyr posibl yn rhydd i ddewis safle i'w ddatblygu nas rhestrwyd yn natganiad polisi'r Asesiad. Byddai angen i unrhyw safle a gynigiwyd ar ôl datganiad polisi'r Asesiad o Safleoedd Strategol gael ei asesu gan yr awdurdod cynllunio perthnasol, yn erbyn meini prawf yr Asesiad hwnnw. Yn yr achos hwnnw, mae'n debygol y byddai cwmpas unrhyw ymchwiliad cynllunio yn ehangach na phe bai cais mewn maes a restrwyd eisoes yn natganiad polisi'r Asesiad o Safleoedd Strategol.

Y broses caniatâd cynllunio bresennol

23. Mae Adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 yn amodi na ellir adeiladu unrhyw orsaf gynhyrchu sy'n cynhyrchu mwy na 50MW o drydan ym Mhrydain Fawr oni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i hynny. Mae'r pŵer i gydsynio i adeiladu gorsafoedd ynni newydd yn yr Alban yn fater a ddatganolwyd i Weinidogion yr Alban. Cwmpesir y broses o roi caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu gorsafoedd ynni newydd yng Ngogledd Iwerddon gan ddeddfwriaeth ar wahân ar gyfer Gogledd Iwerddon (disgrifir ymhellach isod). At ddibenion cydsynio o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnal ymchwiliad cyhoeddus os bydd "awdurdod cynllunio perthnasol" yn gwrthwynebu'r cynnig.

Cyhoeddwyd canllawiau cyffredinol ar geisiadau o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 er mwyn i'r Adran ymgynghori arnynt ac maent ar gael o wefan yr Adran Masnach a Diwydiant[15].

24. Yn ogystal, dylid nodi bod y Llywodraeth wedi cyflwyno rheolau newydd yn ddiweddar i ddisodli'r hen rai a oedd yn llywodraethu'r weithdrefn mewn ymchwiliadau yng Nghymru a Lloegr i geisiadau ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu mawr (yn cynnwys unrhyw orsafoedd niwclear) o dan adran 36, a hefyd llinellau uwchben o dan adran 37 o Ddeddf Trydan 1989[16]. Bwriad y rheolau newydd yw gwella effeithlonrwydd ymchwiliadau o'r fath, tra'n parhau i sicrhau bod yr ymchwiliad yn fforwm lle bo llais gan bawb sydd â diddordeb priodol a lle yr ystyrir pob mater perthnasol yn llawn ac yn deg.

Diwygio'r Maes Cynllunio

25. Mae'r broses o gyflwyno seilwaith ynni yn brydlon yn chwarae rhan bwysig wrth gynnal dibynadwyedd ein cyflenwadau ynni. Gall sicrhau'r cydsyniadau angenrheidiol fod yn un o'r prif ffactorau sy'n achosi oedi ar gyfer pob math o brosiect ynni. Gall penderfyniadau gymryd cryn dipyn o amser, a gall ymchwiliadau cyhoeddus gael eu trwytho mewn dadleuon ynghylch materion cenedlaethol, yn hytrach na mynd i'r afael â materion lleol yn ymwneud â lleoli safleoedd a godir gan y datblygiad arfaethedig. Mewn perthynas â niwclear, er enghraifft, cymerodd Sizewell B chwe blynedd i sicrhau cydsyniad o dan Adran 36. Mae hyn yn creu ansicrwydd ac mae'n gostus iawn. Roedd costau ymchwiliad uniongyrchol Sizewell B tua £30 miliwn, a dim ond 30 o blith y 340 o ddyddiau'r ymchwiliad a neilltuwyd i faterion lleol.[17]

26. Mae Pennod Cynllunio'r Papur Gwyn ar Ynni yn nodi cyfres o ddiwygiadau i'r system gynllunio gan eu bod yn ymwneud â phrosiectau Ynni. Bydd cynnwys prosiectau ynni mewn system newydd ar gyfer cydsynio i brosiectau seilwaith sy'n bwysig yn genedlaethol yn golygu y bydd datblygiadau newydd yn y sector ynni yn cael budd o nifer o welliannau:

- sicrhau bod fframwaith polisi clir ar gyfer seilwaith sy'n bwysig yn genedlaethol;
- helpu hyrwyddwyr i wella'r ffordd y maent yn paratoi ceisiadau ac yn ymgynghori arnynt;
- symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer prosiectau seilwaith sy'n bwysig yn genedlaethol drwy resymoli'r cyfundrefnau cydsynio gwahanol a gwella'r gweithdrefnau ymchwilio ar gyfer pob un ohonynt;
- egluro'r broses benderfynu, a sicrhau bod y broses o lunio polisïau a'r broses benderfynu yn amlwg yn brosesau ar wahân, drwy greu comisiwn annibynnol i weithredu ar y penderfyniadau ar achosion sy'n ymwneud â seilwaith sy'n bwysig yn genedlaethol o fewn fframwaith y datganiad polisi cenedlaethol perthnasol; a
- gwella'r graddau y caiff y cyhoedd ei gynnwys ar draws y broses gyfan.

27. Rhagwelir y byddai'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn rhan o Ddatganiad Polisi Cenedlaethol ar orsafoedd ynni niwclear newydd. Os na fydd y diwygiadau cynllunio arfaethedig yn mynd rhagddynt fel y rhagwelir ar hyn o bryd, bwriedir y byddai'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn fewnbwn sylweddol i'r broses o roi caniatâd cynllunio i'r gwaith o adeiladu gorsafoedd ynni niwclear newydd. O ran safle sy'n bodloni meini prawf yr Asesiad o Safleoedd Strategol, dylai fod

15 http://www.dti.gov.uk/consultations/page39308.html
16 Rheolau Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan a Llinellau Uwchben (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru a Lloegr) 2007 (O.S. 2007/841).
17 http://www.dti.gov.uk/files/file32009.pdf

ymchwiliad cyhoeddus yn gallu canolbwyntio'n well ar y gydberthynas rhwng y cynnig, y cynlluniau lleol a'r effeithiau amgylcheddol lleol, yn hytrach nag ar y rhesymeg dros ddewis y safle. Yn yr achos hwnnw, byddai'r ymchwiliad hefyd yn ystyried manteision lleol y datblygiad a sut y gellir lleihau effeithiau lleol penodol y gwaith adeiladu a gweithredu'r safle. Felly, gallai'r ymchwiliad cynllunio lleol fanteisio i'r eithaf ar ei amser a'i adnoddau i ddim ond ystyried y materion hynny y penderfynir arnynt yn briodol yn lleol.

Asesiad Amgylcheddol Strategol a deddfwriaeth amgylcheddol arall

28. Byddai paratoi'r Adroddiad Amgylcheddol fel sy'n ofynnol o dan Gyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn helpu i sicrhau yr ystyrid yr holl ystyriaethau amgylcheddol perthnasol yn llawn gyda gofynion technegol safle, ac y nodid mesurau lliniaru posibl. Noda Adran 3 o'r ddogfen ymgynghori hon sut mae'r Llywodraeth yn cynnig cynnwys gofynion Cyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ym mhroses yr Asesiad o Safleoedd Strategol.

29. Ymhlith y ddeddfwriaeth Ewropeaidd arall y mae'n rhaid cydymffurfio â hi mae Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd y CE[18], lle y bônt yn gymwys. Mae'r ddwy Gyfarwyddeb hyn gyda'i gilydd yn rhestru cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig yn Ewropeaidd ac yn ehangach ac yn nodi dulliau o ddynodi cyfres gynrychioliadol o safleoedd i'w diogelu fel "safleoedd Ewropeaidd", rhwydwaith Natura 2000 (neu N2K). Caiff y gwaith o ddiogelu a rheoli'r safleoedd hyn, sy'n cynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ei reoleiddio yn y DU gan y Rheoliadau Cynefinoedd[19]. Yn yr un modd, byddai'r Asesiad o Safleoedd Statudol yn ystyried darpariaethau domestig sy'n ymwneud â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)[20], lle y bônt yn gymwys.

30. Rhaid asesu unrhyw gynllun neu gynnig sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar nodweddion y fath safleoedd sy'n bwysig yn amgylcheddol yn erbyn yr amcanion cadwraeth sy'n gysylltiedig â hwy. Ni fyddai'r Asesiad o Safleoedd Strategol o reidrwydd yn ymdrin â'r materion a godid ond byddai angen ymdrin â hwy ar y lefel briodol mewn cymysgedd o ffyrdd, gan y datblygwr, rheoleiddwyr ac asiantaethau perthnasol.

31. Mae'r gofyniad i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol[21] y tu hwnt i gwmpas yr Asesiad o Safleoedd Strategol. Byddai angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar sail safleoedd penodol gan ddarpar ddatblygwr.

Sut y byddai'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn ymwneud â'r Gweinyddiaethau Datganoledig

32. Er bod polisi ynni niwclear yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU, caiff y broses gynllunio statudol y mae'r cynigion ar gyfer gorsafoedd ynni newydd yn ddarostyngedig iddi ei datganoli i raddau amrywiol.

18 Cyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC a wnaed ar 2 Ebrill 1979 ar gadw adar gwyllt (O.J. L103, 25.4. 1979, t.1) a Chyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC a wnaed ar 21 Mai 1992 ar gadw cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt (O.J. L206, 22.7.92, t.7).

19 Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994 fel y'u diwygiwyd (O.S. 1994/2716).

20 Nodir y darpariaethau allweddol yn Adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

21 Gweithdrefnau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wedi'u trawsosod o fewn deddfwriaeth y DU fel y bo'n ofynnol gan Gyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC, fel y'i diwygiwyd.

33. Yn yr Alban, ystyrir pob cais i adeiladu gorsafoedd ynni dros 50MW yn yr Alban gan Weinidogion yr Alban (ystyrir ceisiadau i adeiladau gorsafoedd ynni sy'n llai na 50MW gan awdurdodau lleol yr Alban). Mae Polisi Cynllunio'r Alban 6 yn nodi'r polisïau a ystyrir gan Weinidogion yr Alban ac Awdurdodau Lleol wrth benderfynu ar geisiadau am gynlluniau cynhyrchu trydan ar y tir. Ymgynghorid yn llawn â Gweithrediaeth yr Alban o ran datblygiad Asesiad o Safleoedd Strategol gan y Llywodraeth a lefel yr Asesiad hwnnw. Cyfrifoldeb Gweinidogion yr Alban fyddai penderfynu sut y gellid cymhwyso'r Asesiad hwn o Safleoedd Strategol neu ei addasu i'r Alban.

34. Yng Ngogledd Iwerddon, mae angen caniatâd cynllunio ar hyn o bryd ar bob cynnig i adeiladu gorsafoedd ynni uwchben marc y distyll o dan Orchymyn Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 1991. Lle bo ganddynt gapasiti o fwy na 10MW, mae angen caniatâd arnynt hefyd o dan Erthygl 39 o Orchymyn Trydan (Gogledd Iwerddon) 1992, boed ar y tir neu alltraeth. Mae Gorchymyn Caniatadau Trydan (Cynllunio) (Gogledd Iwerddon) 2006, nad yw'n weithredol eto, yn sail i ganiatâd o dan Erthygl 39 y gellir tybio ei fod hefyd yn rhoi caniatâd cynllunio. Mae'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol i roi hyn ar waith wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd ond penderfyniad y weinyddiaeth ddatganoledig yw p'un a ddylid parhau â'r system "cydsyniad ynni unigol" ai peidio.

35. Cyfrifoldeb y gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yw penderfynu ar eu dull eu hunain o weithredu mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar yr Asesiad o Safleoedd Strategol. Felly, byddwn yn trafod gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig p'un a ddylid ymestyn yr ymgynghoriad ar yr Asesiad o Safleoedd Strategol i gwmpasu'r Alban a Gogledd Iwerddon, a sut y dylid gwneud hyn.

36. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rai swyddogaethau cynllunio datganoledig, ond nid yw'r rhain yn cynnwys y pŵer i gydsynio i adeiladu gorsafoedd ynni dros 50MW (er bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyfrifol am ystyried ceisiadau i adeiladu gorsafoedd ynni o dan 50MW yng Nghymru). Yn unol â hynny, rhagwelir y câi Cymru ei chynnwys ym mhroses yr Asesiad o Safleoedd Strategol fel y nodir yn Adran 3 o'r ddogfen hon. Ymgynghorid â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyn o beth.

37. Er gwaethaf y ffaith bod gan Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ymreolaeth amrywiol dros benderfyniadau ym maes cynllunio, gwahoddid pob rhanddeiliad yn y DU i gymryd rhan ym mhroses yr Asesiad o Safleoedd Strategol sy'n mynd rhagddi ac ymgynghorid yn llawn â'r Gweinyddiaethau Datganoledig, gyda'r nod o ddatblygu meini prawf a *allai* gwmpasu'r DU gyfan, ar ôl ystyried ffactorau a phryderon ledled y DU.

Adran 3: Y broses arfaethedig i'w dilyn ar gyfer yr Asesiad o Safleoedd Strategol

38. Os bydd y Llywodraeth yn cadarnhau ei barn ragarweiniol fod gan y broses o gynhyrchu ynni niwclear ran i'w chwarae yng nghymysgedd cynhyrchu'r DU yn y dyfodol, câi proses yr Asesiad o Safleoedd Strategol ei lansio. Wrth ddatblygu ei chynigion, mae'r Llywodraeth wedi ystyried profiad blaenorol y DU o ran dewis safleoedd niwclear, yn ogystal â dulliau o weithredu a fabwysiadwyd dramor. Mae hyn wedi arwain at y dull arfaethedig o weithredu fesul cam a ddisgrifir isod. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi nodi'r pwyntiau allweddol hynny yn ystod yr Asesiad o Safleoedd Strategol pan fyddai cynnwys y cyhoedd yn arbennig o bwysig, yn ei barn hi. Nodir proses dri cham ar gyfer datblygu'r Asesiad o Safleoedd Strategol yn Ffigur 2 a nodir ei manylion yn yr adran hon.

39. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, rydym hefyd yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol fel rhan o'r Asesiad o Safleoedd Strategol. Noda Canllaw Ymarferol y DU i'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol[22] y camau canlynol ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol:

- Cam A: Gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas;
- Cam B: Datblygu a mireinio opsiynau ac asesu effeithiau;
- Cam C: Paratoi'r Adroddiad Amgylcheddol;
- Cam Ch: Ymgynghori ar y cynllun/rhaglen ddrafft a'r Adroddiad Amgylcheddol; a
- Cam D: Monitro'r broses o roi'r cynllun/rhaglen ar waith.

Ni fwriedir i'r camau hyn lunio trefn anhyblyg. Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol yn aml yn broses ailadroddol, lle caiff gweithgareddau penodol o fewn camau eu hailystyried wrth i gynlluniau a rhaglenni gael eu datblygu, ac mae hyn i'w ddisgwyl yng nghyd-destun Asesiad o Safleoedd Strategol. Noda Tabl 2 isod sut y cynigiwn gynnwys elfennau o'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yng nghamau'r Asesiad o Safleoedd Strategol. Mae'n bosibl y byddwn yn adolygu hyn yng ngoleuni'r ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer cwmpas yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yng Ngham 1.

40. Fel amserlen ddangosol, rhagwelir y byddai'r Asesiad o Safleoedd Strategol, o ddechrau Cam 1 i ddiwedd Cam 3, yn cymryd rhwng tua 18 mis a dwy flynedd. Câi Cam 1 ei lansio ar ddechrau 2008, yn dilyn yr ymateb i'r prif ymgynghoriad niwclear "o ran egwyddor" ac os bydd y Llywodraeth yn cadarnhau ei barn ragarweiniol fod gan y broses o gynhyrchu ynni niwclear ran i'w chwarae yng nghymysgedd cynhyrchu'r DU yn y dyfodol. Efallai y bydd angen i'r dyddiadau a nodir isod newid, er enghraifft o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn.

41. Cyn lansiad posibl Cam 1 o'r Asesiad o Safleoedd Strategol, mae'r Llywodraeth yn cynnig y bydd gwaith wrth gefn yn dechrau ar ei agweddau amgylcheddol. Cyflawnir hyn ar y cyd â gwaith cwmpasu ar y meini prawf eraill ar gyfer asesu addasrwydd safleoedd, i baratoi ar gyfer ymgynghoriad ar feini prawf drafft.

22 Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog a Gweinyddiaethau Datganoledig, *A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive*, 2005.

FFIGUR 2. PROSES ARFAETHEDIG YR ASESIAD O SAFLEOEDD STRATEGOL



TABL 2: CAMAU A GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL PROSES YR ASESIAD O SAFLEOEDD STRATEGOL	
Cam	Gweithgareddau Allweddol
1	**Ymgynghori ar feini prawf drafft** Byddai Cam 1 yn canolbwyntio ar ddatblygu'r ddau gategori canlynol o feini prawf: • meini prawf gwaharddol, a fyddai'n helpu i ddiystyru'r ardaloedd hynny sy'n anaddas ar gyfer adeiladu gorsafoedd ynni niwclear newydd ac amlygu'r ardaloedd lle gallai fod safleoedd addas. Gallai meini prawf o'r fath gynnwys meini prawf "dwysedd poblogaeth" er enghraifft; a • meini prawf dewisol neu fanwl ar gyfer asesu addasrwydd safleoedd posibl. Byddai cymhwyso meini prawf o'r fath yn amlygu safleoedd y gallai fod yn fwy priodol eu hosgoi lle bo dewisiadau amgen gwell. Dengys **Atodiad A** feini prawf dangosol er gwybodaeth yn unig, y byddem yn eu datblygu yn feini prawf ar gyfer ymgynghori ar Gam 1. a. Byddai'r ymgynghoriad Cam 1 ar: • feini prawf drafft, yn cynnwys meini prawf "gwaharddol" a "dewisol", sy'n nodi'r ardaloedd daearyddol hynny y gellid eu diystyru'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gymhwyso'r meini prawf gwaharddol; • Cynigion ar yr elfen o'r Asesiad o Safleoedd Strategol sy'n ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, yn cynnwys y broses i'w dilyn a materion i'w cwmpasu yn yr Adroddiad Amgylcheddol[23]. b. Ar ôl i'r ymgynghoriad cyntaf hwn ddod i ben, byddem yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, ac yn paratoi i gyhoeddi safbwyntiau'r Llywodraeth ar y meini prawf, gan nodi'r ardaloedd daearyddol hynny y gellid eu diystyru, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy gymhwyso'r meini prawf gwaharddol; a

23 Byddai hyn yn cynnwys ymgynghori â'r cyrff ymgynghori a ddynodwyd yn Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau Amgylcheddol 2004 (O.S. 2004/1633) ar gwmpas yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

TABL 2: CAMAU A GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL PROSES YR ASESIAD O SAFLEOEDD STRATEGOL	
	c. Byddai Cam 1 yn para tua pum mis ac yn dod i ben gyda datganiad gan y Llywodraeth fel y cyfeirir ato ar ddechrau Cam 2 isod.
2	**Cyhoeddi datganiad ar feini prawf, gwahodd enwebiadau ar gyfer safleoedd posibl i'w hystyried yn yr Asesiad o Safleoedd Strategol** Amcan allweddol Cam 2 fyddai gwahodd enwebiadau ar gyfer safleoedd sy'n addas ar gyfer adeiladu gorsafoedd niwclear newydd. a. Ar ddechrau Cam 2, byddem yn cyhoeddi: • y meini prawf gwaharddol a dewisol i'w defnyddio ar gyfer yr Asesiad o Safleoedd Strategol; • arwydd o'r ardaloedd daearyddol eang a ddiystyrwyd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, a'r ardaloedd hynny lle gallai fod safleoedd addas ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd, gan esbonio sut yr ystyriwyd ffactorau amgylcheddol; a • y gwahoddiad i enwebu safleoedd mewn ardaloedd nas diystyrwyd gan y meini prawf gwaharddol, a allai fod yn addas ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd. b. Rhagwelwn y câi gwefan ei sefydlu i roi cyngor ar enwebiadau agored, nodi amserlenni ar eu cyfer a'u derbyn. Byddem hefyd yn nodi'r wybodaeth a fyddai'n ofynnol i ategu enwebiad. Byddai terfyn amser i'r cyfnod enwebu ond byddai'n gyson ag amserlenni a argymhellir ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus, sef tua 12 wythnos. c. Ar ôl i'r cyfnod enwebu ddod i ben, byddem yn cynnal asesiad cadarn o'r safleoedd a enwebwyd, yn erbyn y meini prawf. Cynhelid hyn i nodi'r safleoedd hynny sy'n addas ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd, ac i ddiystyru unrhyw safleoedd y tybir eu bod yn anaddas. Byddai'r rhai sy'n bodloni'r meini prawf yn fwyaf effeithiol yn cael eu cynnwys ar "restr ddrafft o safleoedd addas a enwebwyd", a ddeuai gyda thystiolaeth ategol a sail resymegol sy'n seiliedig ar yr asesiad a gynhaliwyd yn erbyn y meini prawf. Yn yr un modd, câi tystiolaeth ategol a sail resymegol eu darparu ar gyfer unrhyw benderfyniad i beidio â chynnwys safle a enwebwyd ar y "rhestr ddrafft o safleoedd addas a enwebwyd". Byddem yn ymgynghori ar y "rhestr ddrafft" hon ar Gam 3. ch. Disgwylir i Gam 2 bara tua chwe mis.
3	**Cynnig ar restr ddrafft o safleoedd a enwebwyd sy'n bodloni meini prawf** Amcan allweddol y cam hwn fyddai mireinio a chadarnhau'r rhestr ddrafft o safleoedd drwy ymgynghoriad. a. Byddem yn lansio Cam 3 o'r Asesiad o Safleoedd Strategol drwy gyhoeddi: • "rhestr ddrafft o safleoedd a enwebwyd" sy'n deillio o Gam 2, ynghyd â thystiolaeth ategol. • Adroddiad Amgylcheddol ar effeithiau pwysig tebygol y cynigion hyn. b. Byddem yn ceisio barn ar y "rhestr ddrafft o safleoedd a enwebwyd" a'r Adroddiad Amgylcheddol, i alluogi'r cyhoeddi i lunio barn ystyriol o'r safleoedd yr aseswyd eu bod yn addas ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd.

TABL 2: CAMAU A GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL PROSES YR ASESIAD O SAFLEOEDD STRATEGOL	
	c. Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddem yn ystyried yn ofalus yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a gynhwysid yn y datganiad polisi terfynol fel y bo angen. Byddem yn paratoi'r datganiad polisi ar yr Asesiad o Safleoedd Strategol, a fyddai'n cynnwys: • y meini prawf terfynol (fel y gwelir yng Ngham 2); • y rhestr derfynol, er nad cynhwysfawr, o safleoedd sy'n bodloni'r meini prawf; • rôl yr Asesiad o Safleoedd Strategol yn y broses gynllunio, a sut y dylai partïon â diddordeb ei ddefnyddio; a • rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, yn cynnwys sut y caiff materion amgylcheddol eu hystyried a chynigion ar gyfer monitro. ch. Byddem yn dirwyn Cam 3 i ben drwy gyhoeddi'r datganiad polisi hwn a gâi ei gynnwys mewn Datganiad Polisi Cenedlaethol neu ddatganiadau eraill ar gyfer adeiladu gorsafoedd ynni Niwclear newydd. Disgwylir i gam 3 bara tua chwe mis

Atodiad B: Meini prawf cyffredinol dangosol ar gyfer asesu pa mor addas yw safleoedd ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd

1. Mae meini prawf yn rhoi cyfle i ystyried gofynion lleoli a gweithredu gorsaf ynni niwclear newydd ac i helpu i nodi'r meysydd sy'n bodloni'r gofynion hynny. Yn ogystal â materion technegol, gallai ystyriaethau economaidd, gwleidyddol, amgylcheddol, cymdeithasol a thechnegol ddylanwadu ar y lleoliad a chynigir y dylid ystyried y ffactorau hyn yn ystod camau diweddarach proses yr Asesiad o Safleoedd Strategol.

2. Daw'r meini prawf dangosol isod o Ganllaw Ymarferol Llywodraeth y DU i'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (Medi 2005), Egwyddorion Asesu Diogelwch yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a phrofiad blaenorol y DU a phrofiad rhyngwladol, megis Canllaw Lleoli Sefydliad Ymchwil Ynni Trydanol UDA. Enghreifftiau yn unig yw'r meini prawf isod o'r hyn y gallai'r meini prawf fod ac nid cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt ar y cam hwn. Yn ogystal, ni wahaniaethwyd hyd yma rhwng yr hyn a allai gyfateb i feini prawf gwaharddol neu feini prawf dewisol.

TABL 3 – ESBONIO'R MEINI PRAWF

Ystyriaeth	Maen Prawf
Meini Prawf Lleoli Ffisegol – ystyrir fel "natur" yr ardal o amgylch y safle arfaethedig	**Ansawdd yr aer:** *Enghreifftiau o ystyriaethau penodol* • Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer; • cyfyngiadau ar ollyngiadau nwyol; a • materion sy'n ymwneud â gronynnau a llwch ffo.
	Diogelwch yr aer: • presenoldeb neu absenoldeb parthau eithrio aer yn cynnwys agosrwydd y safle i feysydd awyr/gofod awyr cyfyngedig/llwybrau hedfan milwrol.
	Meteoroleg (peryglon meteorolegol a'u heffaith bosibl ar safle): • effeithiau posibl ar wledydd cyfagos, ar raddfa fwy neu'n rhanbarthol; • microhinsawdd safle (llwch a dyddodiad tywod); • gwasgaru mwg; • dyddodiad (yn cynnwys glawiad); a • nodweddion tywydd eithafol a stormydd trydanol.
	Bioamrywiaeth (rhwymedigaethau a dynodiadau statudol ac anstatudol): • safleoedd Natura 2000, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, safleoedd bywyd gwyllt a gwlypdiroedd dynodedig; • dynodiadau anstatudol (Safleoedd Lleol a Gwarchodfeydd Natur Lleol) a chymunedau pwysig; • rhywogaethau prin neu warchodedig a chynefinoedd sensitif; • effeithiau atmosfferig ar bryfed, mamaliaid ac adar;

TABL 3 – ESBONIO'R MEINI PRAWF	
Ystyriaeth	Maen Prawf
	• Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth lleol; ac • effeithiau dŵr a thir ar ffawna a fflora.
	Sŵn a Digryndod sy'n deillio o'r safle: • lefelau cefndir presennol; • natur y cymunedau sy'n derbyn; a • lliniaru safleoedd penodol e.e. drwy dirlunio.
	Materion gweledol: • parth dylanwad gweledol; • alinio â'r ardal leol e.e. gwledig/diwydiannol; • tueddiad o ollwng mwg (lle bo hyn yn un o nodweddion y cynigion e.e. tyrau oeri); a • lleoliad o ran ardaloedd a gwmpesir gan brif ddynodiadau tirwedd, neu o fewn pellter penodol.
	Amwynder: • defnyddiau hamdden o fewn y safle ac yn agos ato; • eraill e.e. dynodiadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a dynodiadau Llain Las; a • buddiannau masnachol yn y safle a'r ardal o'i amgylch.
Meini Prawf Lleoli Rhithwir – ffactorau y dylanwadir arnynt gan agweddau a chyd-destun demograffig	Adnoddau: • nodweddion gweithlu rhanbarthol e.e. rhagolygon cyflogaeth sylfaenol a'r setiau sgiliau sydd ar gael. • argaeledd gweithlu ar gyfer materion adeiladu, materion gweithredol a chynnal a chadw ac i gynnal seilwaith; a • rhyngweithio â gofynion seilwaith mawr eraill, megis dadgomisiynu.
	Cynllunio ar gyfer argyfwng: • demograffeg e.e. dwysedd poblogaeth a'i dosbarthiad • defnydd o dir cyfagos yn cynnwys presenoldeb cyfleusterau niwclear sy'n bodoli eisoes; a • y gallu i fynd i mewn ac allan yn hawdd.
	Derbynioldeb cyhoeddus (ystyriaethau): • y gymuned leol; canfyddiadau busnesau a'r gymuned gwirfoddolwyr • grwpiau eiriolaeth a lobïo; a • Llywodraeth (lleol/rhanbarthol/cenedlaethol/rhyngwladol).
	Meini prawf economaidd: Ystyrir bod treth a chymhellion a materion yswiriant yn faterion a arweinir yn bennaf gan ddatblygwyr ac nad ydynt yn rhan o'r Asesiad o Safleoedd Strategol. Nid ystyrir bod y materion hyn sy'n cynnwys cymhellion datblygu lleol a threthiant yn llywio ystyriaethau ar gyfer yr Asesiad o Safleoedd Strategol.
Meini Prawf Safleoedd – y ffactorau hynny sy'n debygol o ddylanwadu ar leoliad ôl-troed safle	Rheoli'r perygl o lifogydd: • effeithiau'r môr neu'r afon (e.e. ymchwydd storm ac erydu); • argaeau a strwythurau cyfyngu; • amddiffynfeydd morol, tueddiadau llifogydd tebygol; • effaith newid yn yr hinsawdd a newid yn y dirwedd yn ystod oes bosibl safleoedd (mwy na 100 mlynedd); a • rhyngweithio â chynlluniau rheoli'r traeth lleol.

TABL 3 – ESBONIO'R MEINI PRAWF	
Ystyriaeth	Maen Prawf
Seismoleg:	• Presenoldeb ffawtiau gweithredol hysbys; • Lefel y sail gynllunio debygol ar gyfer digwyddiadau seismig; ac • Ymddygiad priddoedd deinamig a'r posibilrwydd o hylifiant.
	Hydroleg: • presenoldeb dyfrhaenau cyflenwi dŵr; • presenoldeb nodweddion draenio dŵr wyneb; a • dŵr daear.
	Diogelwch: • ystyried yr ardal o amgylch y safle a'i natur ddiamddiffyn.
	Rhyngweithio Diwydiannol o gyfleusterau diwydiannol cyfagos • Cymylau nwy (gwenwyn, mygwyr, deunyddiau hylosg); • Gollyngiadau Hylifol (deunyddiau hylosg, gwenwynig, ymbelydrol); • Tanau; • Ffrwydradau (tonnau chwythu); • Cludiant (ffyrdd, môr, rheilffyrdd); • Ymyrraeth Electromagnetig; a • Piblinellau (Nwy, Olew, Dŵr).
	Materion yn ymwneud â thir: • defnydd arfaethedig o dir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol; • presenoldeb materion halogi a pherchenogaeth; • gofynion tir ar gyfer cyfleusterau gwastraff; ac • adeiladau hanesyddol, safleoedd archeolegol a nodweddion eraill sy'n bwysig yn ddiwylliannol.
	Topograffi (tirwedd neu arwynebedd ardal): • ôl troed safle sydd ar gael a chynllun adeiladu; • dal dŵr/hydroleg; a • mynediad adeiladu.
	Geodechneg: • heintio; • athreiddedd; • tueddiad o wynebu diraddiant; a • gofynion sylfaenol.
	Daeareg: • sefydlogrwydd hirdymor tir; • lleoliad ac effaith ffawtiau; a • proffil creigiau.
Meini Prawf Rhyngberthynas – y ffactorau hynny sy'n dylanwadu ar gyflenwad, gwasanaethau a mynediad i'r safle	Gwastraff: • ffurfiau nwyol, solet a hylifol; • cyfyngiadau o ran arllwyso ar y safle; ac • arllwysiadau cronnus.

TABL 3 – ESBONIO'R MEINI PRAWF	
Ystyriaeth	Maen Prawf
	Cyfleusterau Dadlwytho Morol: • presenoldeb cyfleusterau presennol addas; • capasiti Cyfleusterau Dadlwytho Morol; ac • addasrwydd cyfleusterau amgylcheddol/cyfagos morol i ddarparu ar gyfer gwaith adeiladu Cyfleusterau Dadlwytho Morol newydd.
	Rheilffyrdd: • safonau presennol y rheilffyrdd; • lleoliad y seilwaith safle newydd o gymharu â'r rhwydwaith rheilffyrdd; a • cymharu'r rheilffyrdd â mathau eraill o drafnidiaeth.
	Priffyrdd: • presenoldeb priffyrdd/seilwaith/llifau traffig; • isffyrdd a ffyrdd mynediad (angen eu huwchraddio o bosibl); a • llwythi trwm a mynedfa ac allanfa frys.
	Dŵr oeri: • capasiti a diogelwch cyflenwad; • ail-lusgiant ac arllwysiadau lluosog; • defnydd o ddŵr oeri o'r môr, afonydd neu forydau yn cynnwys ffactorau cysylltiedig (e.e. yr angen am dyrau oeri); a • seilwaith morol ategol.
	Materion grid: • capasiti cynhyrchu presennol a rhagweledig; • cysylltiad grid a chostau defnyddio; • cysylltiad grid ffisegol; • cystadleuaeth am gapasiti cysylltu/atgyfnerthu grid; ac • anghenion trydanol lleol a newidiadau rhagweledig yn y dyfodol o ran y galw hwnnw.

Argraffwyd yn y DU ar bapur wedi'i ailgylchu yn cynnwys o leiaf 75% o wastraff ôl-ddefnyddwyr.
Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Mai 2007. Yr Adran Masnach a Diwydiant. www.dti.gov.uk
(h) Hawlfraint y Goron. URN 07/972W